

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Swm Hydref 1997

Cynnwys

	<i>Paragraph Number</i>
Cyflwyniad	1
Y Cynllun Datblygu	5
Categoriâu Datguddiad Swm ar gyfer Datblygiadau Preswyl	7
Rheoli Datblygu	
- Datblygiadau sy'n creu swm	8
- Datblygiadau sy'n sensitif i swm	10
- Mesurau i liniaru effaith swm	11
Dilead	16
Geirfa	
Categoriâu Datguddiad Swm ar gyfer Anheddau	Annex A
Asesu Swm o Wahanol Ffynonellau	Annex B
Enghreifftiau o Amodau Cynllunio	Annex C
Pennu Terfynau Swm	Annex D
Gwybodaeth am Gyfundrefnau Rheoli Swm Eraill	Annex E
Offerynnau Statudol a Safonau Prydeinig	Annex F

Ffynhonnell: Cynllunio

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Swm Hydref 1997

Geirfa

Cyflwyniad

1. Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) hwn gael ei ddarllen ar y cyd â 'Chanllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio'. Dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gymryd Canllawiau Cynllunio, Nodiadau Cyngor Technegol a chylchlythyron i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a chânt eu cymryd i ystyriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Arolygwyr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio wedi'u galw i mewn ac apelau.

2. Mae dogfennau a restrir yn y golofn Cyfeiriad yn yr ymyl yn cynnig gwybodaeth a ddylai gael ei darllen ar y cyd â'r TAN hwn.

3. Mae'r nodyn hwn yn cynnig cyngor ar sut y gellir defnyddio'r system gynllunio i leihau effaith andwyol swm heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygu nac ychwanegu'n amhriodol at gostau a beichiau gweinyddol busnes. Mae'n amlinellu rhai o'r prif ystyriaethau y dylai'r awdurdodau cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio polisiâu mewn cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu a fydd naill ai'n creu swm neu'n agored i ffynonellau swm sydd eisoes yn bodoli.

4. Dylai'r awdurdodau lleol arddel ymagwedd gyfun a sicrhau bod adrannau cynllunio ac adrannau iechyd amgylchedd yn cydweithredu'n agos wrth ystyried swm a datblygiadau sy'n creu swm.

Y Cynllun Datblygu

5. Lle bo polisiâu ar swm yn gymwys i ardal y cynllun yn ei chrynswth, dylent gael eu nodi yn yr un ffordd â'r polisiâu cyffredinol eraill. Gall polisiâu swm ar gyfer ardaloedd penodol fod yn ddefnyddiol o dan rai amgylchiadau. Mewn achosion o'r fath, dylid darlunio'r ffiniau perthnasol ar y map cynigion. Er hynny, bydd yn amhriodol yn gyffredinol i fap cynigion ddangos cyfuchliniau swm manwl gan y gall allyriadau swm newid yn sylweddol dros amser, (e.e. yn achos maes glanio, gall newidiadau gweithrediadol arwain at amrywiadau sylweddol yn effaith y swm ar y rhai sy'n byw yn yr ardal).

6. Lle bo'n arbennig o anodd gwahanu datblygiadau sy'n sensitif i swm oddi wrth weithgareddau swmlyd, dylai cynlluniau gynnwys awgrym o unrhyw bolisiâu cyffredinol y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu defnyddio mewn perthynas ag amodau neu rwymedigaethau cynllunio.

Cyfeiriad

**Nodyn Cyngor
Technegol
(Cymru) 5,
'Cadwraeth Natur a
Chynllunio', 1996**

**Nodyn Cyngor
Technegol
(Cymru) 8, 'Ynni
Adnewyddadwy',
1996**

**'Canllawiau
Cynllunio (Cymru):
Polisi Cynllunio',
1996,
paragraffau 43-45**

**Noise Review
Working Party,
1990, Gwasg Ei
Mawrhydi
(ISBN 0 11 752343 7)**

Categoriâu Datguddiad Swm ar gyfer Datblygiadau Preswyl

7. Mae Categoriâu Datguddiad Swm (NECs) (gweler Atodiad A) wedi'u creu i helpu'r awdurdodau cynllunio lleol wrth ystyried ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau preswyl yn agos at ffynonellau swm sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Rheoli Datblygu

Datblygiadau sy'n creu Swm

8. Rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol sicrhau nad yw datblygiad sy'n creu swm yn achosi graddau annerbyniol o aflonyddwch. Dylent gadw mewn cof hefyd y dylid ystyried defnyddio amodau priodol os bydd dwysáu neu newid defnydd dilynol yn arwain at fwy o ymyrraeth.

9. Gall nodweddion a lefelau swm amrywio'n sylweddol yn ôl eu ffynhonnell a'r math o weithgarwch o dan sylw. Yn achos datblygiad diwydiannol, er enghraifft, dylid cymryd cymeriad y swm i ystyriaeth yn ogystal â'i lefel. Bydd trawiadau sydyn, swm afreolaidd neu swm sy'n cynnwys tôn bendant a pharhaus yn gofyn ystyriaeth arbennig. Yn ychwanegol at swm awyrennau'n glanio ac yn esgyn, mae swm meysydd glanio yn debyg o ddeillio o weithgarwch profi peiriannau yn ogystal â symudiadau ar y ddaear. Bydd effaith swm chwaraeon, hamdden ac adloniant yn dibynnu i raddau helaeth ar amllder defnydd a dyluniad y cyfleusterau. Rhoddir cyngor ar asesu swm ac ar y ffactorau i'w hystyried mewn perthynas â'r prif ffynonellau swm gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr, swm diwydiant a hamdden a'u mesuriadau yn Atodiad B.

Datblygiadau sy'n sensitif i swm

10. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried a fyddai cynigion ar gyfer datblygu sy'n sensitif i swm yn anghydnaws â gweithgareddau sy'n bodoli eisoes, gan gymryd i ystyriaeth lefel y datguddiad i swm adeg y cais ac unrhyw gynnydd y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl yn y dyfodol hyd y gellir rhag-weld. Ni ddylai datblygu o'r fath fel rheol gael ei ganiatáu mewn ardaloedd sydd, neu y disgwylir iddynt ddod, yn destun lefelau swm annerbyniol o uchel ac ni ddylid eu caniatáu fel rheol lle bydd lefelau swm uchel yn parhau drwy'r nos.

Mesurau i liniaru effaith swm

11. Dylai'r mesurau a gymerir i reoli ffynhonnell swm, neu i gyfyngu'r datguddiad i swm, fod yn gymesur â'r swm ac yn rhesymol, a gallant gynnwys:

- i. peirianeg: lleihau'r swm yn y man lle caiff ei greu (e.e. drwy ddefnyddio peiriannau tawel a/neu ddulliau tawel o weithio); cyfyngu ar y swm a greir (e.e. drwy inswleiddio'r adeiladau lle ceir peiriannau a/neu ddarparu rhwystrau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol o gwmpas safleoedd); diogelu adeiladau oddi amgylch sy'n sensitif i swm (e.e. drwy wella inswleiddiad swm yn yr adeiladau hyn a/neu drwy eu sgrinio â rhwystrau pwrpasol);
- ii. cynllun: pellter digonol rhwng ffynhonnell y swm ac adeiladau neu ardal sy'n sensitif i swm; sgrinio â rhwystrau naturiol, adeiladau eraill neu ystafelloedd sydd heb fod yn holl-bwysig

mewn adeilad;

- iii. gweinyddol: cyfyngu'r amser y bydd y ffynhonnell swm yn gweithredu; cyfyngu'r gweithgareddau a ganiateir ar y safle; pennu terfyn swm derbyniol.

12. Mae'n ddymunol ymgynghori yn gynnar â'r ceisydd ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau o'r fath ac mae'n bosibl y gellir eu hymgorffori yn y dyluniad cyn i'r cynnig gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'w benderfynu. Fel arall, gall awdurdod cynllunio lleol osod amodau. Gwelir amodau sy'n gosod terfynau swm yn codi materion penodol y rhoddir canllawiau manwl arnynt yn Atodiad D.

***Cylchlythyr 35/95
y Swyddfa Gymreig,
'The Use of
Conditions in
Planning
Permissions'***

13. Gall fod amgylchiadau lle mae'n dderbyniol, neu hyd yn oed yn ddymunol er mwyn bodloni amcanion cynllunio eraill, i ganiatáu gweithgareddau sy'n creu swm ar dir yn ymyl datblygiad sy'n sensitif i swm neu'n gyfagos ag ef. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried defnyddio amodau neu rwymedigaethau cynllunio i ddiogelu amwynder lleol. Dylid cymryd gofal i gadw'r gweithgareddau mwyaf swmlyd i ffwrdd o'r ffin neu gymryd mesurau i leihau effaith y swm. Dylai'r awdurdodau hefyd gymryd i ystyriaeth y ffaith bod lefel y swm cefndir mewn rhai ardaloedd maestrefol neu wledig yn isel iawn, ac y gall cyflwyno gweithgareddau sy'n creu swm i ardaloedd o'r fath fod yn arbennig o aflonyddgar.

14. Lle na ellir bodloni amcanion cynllunio awdurdod drwy osod amod cynllunio, am eu bod, er enghraifft, yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygydd wneud cyfraniad ariannol, neu am eu bod yn ymwneud â datblygiad, ffyrdd neu adeiladau heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y cais cynllunio, gall fod yn briodol gwneud rhwymedigaeth gynllunio.

***Deddf Cynllunio
Gwlad a Thref
1990, Adran 106,
fel y'i diwygiwyd
gan Ddeddf
Cynllunio ac
lawndal 1991,
Adran 12***

15. Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn dileu'r angen i gydymffurfio â phwerau statudol ychwanegol i reoli swm (gweler Atodiad E).

Dilead

16. Mae Cylchlythyr 16/73 y Swyddfa Gymreig, 'Planning and Noise', wedi'i ddileu.

***Cylchlythyr 13/97
y Swyddfa Gymreig
'Rhwymedigaetha
Cynllunio'***

Ffynhonnell: Cynllunio

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Swm

Hydref 1997

Atodiad A

CATEGORÏAU DATGUDDIAD SWN AR GYFER ANHEDDAU

A1. Wrth asesu cynnig ar gyfer datblygiad preswyl ger ffynhonnell swm, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol benderfynu i ba un o'r pedwar categori datguddiad swm (NECs) (Tabl 1) y mae'r safle arfaethedig yn perthyn, gan gymryd i ystyriaeth lefelau swm yn ystod y nos a'r dydd. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol roi sylw wedyn i'r cyngor yn yr NEC priodol, fel isod:

Tabl 1: CATEGORÏAU DATGUDDIAD SWN	
A	Nid oes angen ystyried swm fel ffactor sy'n penderfynu wrth roi caniatâd cynllunio, er na ddylid cymryd bod lefel swm tua phen uchaf y categori yn lefel 1 ddymunol.
B	Dylid cymryd swm i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, a, lle bo'n briodol, dylid gosod amodau i sicrhau lefel ddigonol o amddiffyniad
C	Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio fel rheol. Lle bernir y dylid rhoi caniatâd, er enghraifft, oherwydd nad oes safleoedd tawelach addas ar gael, dylid gosod amodau i sicrhau lefel gymesur o amddiffyniad yn erbyn swm
D	Dylid gwrthod caniatâd cynllunio fel rheol

A2. Yn Nhabl 2 gwelir amrediad o lefelau swm a argymhellir ar gyfer pob NEC ar gyfer anheddau sy'n agored i swm o ffyrdd, rheilffyrdd, yr awyr a ffynonellau cymysg. Er hynny, gall fod yn briodol mewn rhai achosion i'r awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar yr amrediad o lefelau swm y maent am eu dyrannu i'r gwahanol NECs. Lle ceir angen clir am ddatblygiad preswyl mewn ardal sydd eisoes yn swmllyd, gellir cynyddu hyd at 3 dB(A) uwchlaw'r lefelau a gymeradwyir ar rai neu'r cyfan o'r NECs. Mewn achosion eraill, gellir cyfiawnhau gostyngiad o hyd at 3 dB(A).

Tabl 2: CATEGORïAU DATGUDDIAD SWN A ARGYMHELLIR AR GYFER ANHEDDAU NEWYDD YN YMYL FFYNONELLAU SY'N BODOLI EISOES

Lefelau swm(1) sy'n cyfateb â'r Categoriâu Datguddiad Swm ar gyfer Anheddau Newydd LAeq,TdB

Ffynhonnell Swm	Categori Datguddiad Swm			
	A	B	C	D
traffig ffordd				
0700-2300	<55	55-63	63-72	>72
2300-0700 (2)	<45	45-57	57-66	>66
traffig rheilffordd				
0700-2300	<55	55-66	66-74	>74
2300-0700(2)	<45	45-59	59-66	>66
traffig awyr(3)				
0700-2300	<57	57-66	66-72	>72
2300-0700(2)	<48	48-57	57-66	>66
ffynonellau				
cymysg (4)				
0700-2300	<55	55-63	63-72	>72
2300-0700(2)	<45	45-57	57-66	>66

Nodiadau

(1) Lefelau swm: dylai'r lefel(au) swm (LAeq,T) a ddefnyddir wrth benderfynu ar NEC y safle fod yn gynrychioliadol o'r amodau nodweddiadol.

(2) Lefelau swm yn ystod y nos (2300-0700): dylai safleoedd lle mae'r digwyddiadau swm unigol yn rheolaidd yn mynd y tu hwnt i 82dB_Lmax (pwysiad amser S) sawl gwaith mewn unrhyw awr gael eu trin fel pe baent yn NEC C, ni waeth beth fo'r LAeq,8H (ac eithrio lle bo'r LAeq,8H eisoes yn rhoi'r safle yn NEC D).

(3) Swm awyrennau: mae'r gwerthoedd yn ystod y dydd yn cyd-fynd â'r gwerthoedd cyfuchlinol a fabwysiadwyd gan yr Adran Drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â lefelau wedi'u mesur 1.2m uwchlaw tir agored. Am yr un faint o ynni swm, gall gwerthoedd cyfuchlinol fod hyd at 2dB(A) yn uwch na gwerthoedd cyfuchlinol ffynonellau eraill oherwydd effaith yr adlewyrchiad oddi ar y ddaear.

(4) Ffynonellau cymysg: mae hyn yn cyfeirio at unrhyw gyfuniad o ffynonellau swm ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a diwydiant. Seilir gwerthoedd y "ffynonellau cymysg" ar werthoedd rhifiadol isaf y terfynau ar ffynonellau unigol yn y tabl. Dim ond lle nad oes un ffynhonnell swm yn dominyddu y dylid defnyddio'r NECs "ffynonellau cymysg".

I gael gywbod a oes unrhyw un ffynhonnell swm yn dominyddu (at ddibenion yr asesiad hwn) dylai'r lefel swm o'r ffynonellau unigol gael ei darganfod ac yna ei chyfuno drwy adio desibelau (gan gofio yn gyntaf fod rhaid tynnu 2 dB(A) o werthoedd cyfuchlinol unrhyw swm awyrennau). Os yw lefel unrhyw un ffynhonnell o fewn 2 dB(A) o'r gwerth cyfun a gyfrifir, dylid cymryd y ffynhonnell honno fel yr un ddominyddol a dylid asesu'r safle yn erbyn yr NEC priodol ar gyfer y ffynhonnell honno, yn hytrach na defnyddio'r NECs "ffynhonnell gymysg". Os sn diwydiannol yw'r ffynhonnell ddominyddol, gweler paragraff 17 o Atodiad B.

Os nad oes modd darganfod cyfraniad y ffynonellau swm unigol at y lefel swm gyffredinol drwy fesur a/neu gyfrifo, yna dylai'r lefel gyffredinol a fesurwyd gael ei defnyddio a dylid asesu'r safle yn erbyn yr NECs ar gyfer "ffynonellau cymysg".

A3. Ni ddylid defnyddio lefelau sn NEC i asesu effaith swm diwydiannol ar ddatblygiad preswyl arfaethedig oherwydd gall natur y math hwn o swm, ac amgylchiadau lleol, ei gwneud yn angenrheidiol cynnal asesiad unigol ac nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael am ymateb pobl i swm diwydiannol i ganiatáu rhoi canllawiau manwl. Ond, ar safle swm cymysg lle mae swm diwydiannol yn bresennol ond heb fod yn ddominyddol, dylid cynnwys ei gyfraniad yn y lefel swm a ddefnyddir i sefydlu'r NEC priodol.

A4. Mae'r weithdrefn NECs yn gymwys lle byddir yn ystyried cyflwyno datblygiad preswyl i ardal gyda ffynhonnell sn sy'n bodoli eisoes, ond nid yn y sefyllfa groes lle bwriedir cyflwyno ffynonellau swm newydd mewn ardal breswyl sy'n bodoli eisoes. Y rheswm am hyn yw y gellir defnyddio'r system gynllunio i osod amodau i ddiogelu datblygiad preswyl newydd rhag ffynhonnell swm sy'n bodoli ond, yn gyffredinol, nid oes ar ddatblygwyr rwymedigaeth statudol i gynnig diogelwch rhag swm i anheddau sy'n bodoli y bydd ffynhonnell swm newydd arfaethedig yn effeithio arnynt. Ymhellach, ni fyddai rhwymedigaeth ar unigolion a fyddai â diddordeb ym mhob annedd yr effeithid arni i dderbyn cynnig o'r fath, ac felly ni fyddai yna warant y byddai pob mesur angenrheidiol i ddiogelu rhag swm yn cael ei weithredu.

A5. Felly, lle caiff datblygiad diwydiannol neu fasnachol newydd ei gynnig ger ardal breswyl, bydd rhaid asesu effaith y ffynhonnell swm newydd ar yr ardal gyfagos yn unol â'r gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes. Mewn llawer o achosion lle mae ffynhonnell sn newydd i'w chyflwyno drwy broiect lle mae angen asesiad amgylcheddol (AA), caiff effaith y swm ei hystyried yn y cyd-destun hwn; ond rhaid derbyn, o dan yr amgylchiadau hyn, fod y dewisiadau i reoli swm yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig na lle caiff datblygiad preswyl ei gynnig mewn ardal gyda ffynhonnell swm sy'n bodoli eisoes. Yn achos ffyrdd a meysydd glanio newydd, gall fod cynlluniau grant ar gael i ddarparu inswleiddiad o dan amgylchiadau penodedig.

Datblygiadau eraill sy'n sensitif i swm

A6. Er y bydd datblygiadau megis swyddfeydd, ysbytai ac ysgolion yn cynnwys adeiladau a gweithgareddau sy'n sensitif i swm, mae'r datblygiadau hyn yn debygol o feddiannu safleoedd mawr ac o gynnwys cyfran o adeiladau a gweithgareddau sy'n llai sensitif i swm. Ni ellir felly cymhwyso egwyddor NEC yn synhwyrol at ddatblygiadau o'r fath a bydd yn fwy priodol cyfeirio at ganllawiau penodol ar safonau swm mewnol mewn perthynas â phob gweithgaredd. Gellir cael gwybodaeth gyffredinol yn BS 8233: 1987.

Mynegai sn a safleoedd mesur swm

A7. Mae gwahanol fynegeiau wedi'u defnyddio i ddisgrifio swm o wahanol ffynonellau, ac mae terfynau wedi'u gosod dros wahanol gyfnodau o amser. Mae hyn wedi creu dryswch ac mae'r cyngor hwn yn dilyn y symudiad tuag at gysondeb a argymhellir yn BS 7445: 1991 drwy fynegi pob swm yn nhermau LAeq,T. 0700-2300 a 2300-0700 yw'r cyfnodau amser a argymhellir.

A8. Mae'r gwerthoedd yn Nhabl 2 yn cyfeirio at lefelau swm sy'n cael eu mesur ar safle agored yn lleoliad yr anheddau arfaethedig, yn bell i ffwrdd o unrhyw adeiladu presennol, ac 1.2m i 1.5m uwchlaw'r ddaear. Lle bo cyfartaledd arithmetig y darlleniadau a gofnodir ar y ffin rhwng NEC B ac NEC C, mater i'r

awdurdod cynllunio lleol fydd penderfynu pa NEC yw'r mwyaf priodol ar gyfer y cynnig.

A9. Yn aml pennir lefelau swm traffig ffyrdd a rheilffyrdd un metr o'r ffasâd, a dylid rhagdybio bod y lefelau ffasâd hyn 3 dB(A) yn uwch na'r lefelau a fesurir i ffwrdd o unrhyw adeiladau, oni bai bod ffigur cywirach ar gael. Yn achos swm traffig ffyrdd yn NEC C ac NEC D, LAeq,16h ~ LA10,18h - 2 dB.

A10. Yn achos awyrennau, mae'r lefelau swm yn cyfeirio at werthoedd cyfuchlinol datguddiad swm awyrennau sy'n cael eu pennu 1.2m uwchlaw'r ddaear a'u cyhoeddi bob 3 dB(A) (mae pob 3 dB(A) sy'n cael ei hychwanegu yn gyfystyr â dyblu'r ynni swm). Gan fod y rhan fwyaf o swm awyrennau'n dod oddi uchod, mae cyfuchliniau'n cynnwys effeithiau adlewyrchiad o'r ddaear. (Gweler nodyn 3 yn Nhabl 2.)

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Hydref 1997

Atodiad B

ASESU SWN O WAHANOL FFYNONELLAU

Swm traffig ffordd

B1. Ar gyfer ffyrdd sefydledig, fe fydd fel rheol yn ddigonol seilio'r asesiadau ar y lefel swm gyfredol sydd wedi'i mesur (cyfeirir at hyn ym mharagraff A8 o Atodiad A). Wrth ystyried datblygiad newydd posibl ger ffyrdd mawr sy'n newydd neu sydd wedi'u gwella neu wedi'u haddasu yn ddiweddar (yn nhermau lled, lefel neu gyfeiriad), dylai'r awdurdodau cynllunio lleol sicrhau rhagolygon o'r lefelau swm (e.e. dros y 15 mlynedd nesaf) gyda chymorth yr awdurdod priffyrdd lleol. Ran amlaf, bydd yr awdurdodau priffyrdd wedi paratoi rhagolygon o effeithiau swm traffig at ddibenion Rheoliadau Inswleiddio Swm 1975 a Rheoliadau Diwygio Inswleiddio Swm 1988. Fel arall dylid ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd ynghylch y data llif traffig y mae ei angen i baratoi rhagolygon yn unol â "Calculation of Road Traffic Noise" (Yr Adran Drafnidiaeth a'r Swyddfa Gymreig, 1988). Gall fod yn briodol hefyd i'r awdurdodau priffordd ddefnyddio cynlluniau rheoli traffig a phwerau yn Neddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984. Mae ymchwil a wnaed gan y Labordy Ymchwil Drafnidiaeth ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth yn nodi nad yw difrod strwythurol i adeiladau oherwydd dirgryniad traffig ffordd yn debygol o ddigwydd. Mae cyngor ar gael yn "Design Manual for Roads and Bridges Cyfrol 11, Adran 3, Rhan 7 - Traffic Noise and Vibration". Ond os yw dirgryniad yn parhau'n achos pryder, gellir cael cyngor ar lefelau derbyniol yn BS 6472: 1992, a chyngor ar y lefelau a allai arwain at ddifrodi strwythurau yn BRE Digest 353 "Damage to structures from ground-borne vibration".

Swm rheilffyrdd

B2. Mae swm rheilffyrdd yn deillio o amrywiol ffynonellau. Ar gyfer swm o reilffyrdd gweithredol bydd y categorïau datguddiad swm yn Atodiad A yn briodol. Dylid trin swm lleol o weithgareddau gorsafoedd, canolfannau dosbarthu nwyddau ac iardiau trefnu yn yr un modd â swm o ffynonellau diwydiannol a masnachol. Cynghorir yr awdurdodau cynllunio lleol i ofyn i'r datblygydd ddarparu manylion am lefelau swm presennol ac i ymgynghori â'r gweithredydd rheilffordd i ddarganfod a oes cynigion ar gyfer newidiadau gweithredol sylweddol.

B3. Wrth ystyried yr effaith ar draffig pellter hir a gaiff datblygiadau a fyddai'n esgor ar ddefnyddio cludiant rheilffordd (er enghraifft i gludo agregau o safleoedd cloddio, neu nwyddau o derfynfeydd cludiant), bydd yn briodol cymryd swm y rheilffordd i ystyriaeth.

B4. Bydd tebygrwydd dirgryniad tir sylweddol yn dibynnu ar natur y tir a'r mathau o drenau. Ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd y caiff dirgryniad a swm yn cael eu hadbelydru gan drenau'n rhedeg mewn twnelau. Gellir cael cyngor ar lefelau derbyniol o ddirgryniad yn BS 6472:1992.

B5. Daeth "Rheoliadau Inswleiddio Swm (Rheilffyrdd a systemau eraill o drafnidiaeth wedi'i thywys) 1996" i rym ar 1 Mawrth 1996. Bwriedir iddynt sicrhau driniaeth gyfartal â'r "Rheoliadau Inswleiddio Swm 1975" (fel y'u diwygiwyd) sy'n gymwys i ffyrdd newydd. Trefnwyd bod cyngor technegol, "Calculation of Railway Noise 1995" ar gael ar yr un pryd.

Swm awyrennau

B6. Ar gyfer y prif feysydd glanio, mae cyfuchliniau Mynegai Swm a Nifer (NNI) wedi'u cynhyrchu ers blynnyddoedd lawer i gynorthwyo i reoli datblygu. Ym Medi 1990 mabwysiadodd yr Adran Drafnidiaeth fynegai newydd a bellach mynegir cyfuchliniau datguddiad swm yn nhermau L_{eq} dB(A) dros y cyfnod o 0700-2300. Mae'r mynegai hwn yn cyfateb ag $L_{Aeq,T}$ a ddefnyddir ar gyfer mathau eraill o swm.

B7. Drwy ddefnyddio rhagolygon o'r cyfuchliniau, dylai fod yn bosibl penderfynu'n fras pa ardaloedd sy'n debygol o syrthio o fewn gwahanol gategoriâu datguddiad swm. Ar gyfer meysydd glanio bach ni ddylai'r awdurdodau cynllunio lleol ddibynnu'n unig ar L_{eq} lle mae hyn wedi'i seilio ar lai na 30 symudiad y diwrnod.

B8. Yn Atodiad A rhoddir y categorïau datguddiad swm a argymhellir ar gyfer anheddau newydd sy'n agored i swm awyrennau, ond dylid edrych ar 60 L_{eq} dB(A) fel y terfyn uchaf dymunadwy ar gyfer datblygiad newydd pwysig sy'n sensitif i swm. Lle mae angen ysgolion, clinigau a chyfleusterau cymunedol eraill newydd mewn ardaloedd lle ceir swm uchel, i wasanaethau'r boblogaeth sy'n bodoli, bydd angen i arbenigwyr ystyried mesurau inswleiddio swm. Wrth benderfynu ar geisiadau i amnewid ysgolion ac adeiladu rhai newydd mewn ardaloedd o'r fath, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i batrwm tebygol symudiadau'r awyrennau yn y maes awyr o dan sylw a allai olygu bod y datguddiad i swm yn ystod oriau/diwrnodau ysgol arferol yn sylweddol uwch neu is na'r hyn a ddangosir yn y cyfuchliniau swm cyfartalog.

B9. Lle ceir, neu lle bo'n debygol y ceir, lefelau sylweddol o swm awyrennau yn effeithio ar dir, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol benderfynu'n fras pa ardaloedd sy'n debygol o syrthio o fewn y gwahanol gategoriâu datguddiad swm. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddynt ofyn am gydweithrediad rheolwyr y maes glanio i gael y rhagolygon tymor-hwy mwyaf priodol o draffig awyr (a'i effaith ar y cyfuchliniau swm). Yr amcan fydd sicrhau patrymau clir a sefydlog o gyfyngiadau y gellir ffurfio polisïau rheoli datblygu yn eu herbyn.

B10. Y tu hwnt i eithafion y cyfuchliniau a gyhoeddwyd, bydd swm yn parhau yn glywadwy ger y llwybrau cyrraedd ac ymadael. Caiff y cyntaf eu penderfynu'n gyffredinol gan gyfeiriadedd y llwybrau glanio ac ystyriaethau diogelwch; er hynny, gellir cynllunio llwybrau ymadael fel rheol i osgoi swm mewn ardaloedd adeiledig, cyn belled â phosibl. Gall y defnydd ar y llwybrau hyn newid dros amser oherwydd newidiadau yng nghymysgedd awyrennau a gweithrediadau. Mae'r llwybrau ymadael yn aml yn ffurfio coridor llydan o draciau. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol lle bo'n briodol. Lle nad oes cyfuchliniau swm wedi'u mynegi mewn L_{eq} dB(A) ar gael, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol fynd at reolwyr y maes glanio i sicrhau bod cyfuchliniau'n cael eu llunio'n gynnar.

Meysydd glanio milwrol

B11. Dylid defnyddio'r categorïau datguddiad swm i asesu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd ger meysydd glanio milwrol. Am fod llawer o'r rhain mewn mannau gwledig, bydd yna hyblygrwydd yn aml i sicrhau bod y datblygiadau preswyl newydd wedi'u lleoli o fewn categori datguddiad swm A, tra'n parhau i gymryd ystyriaeth lawn o gyfyngiadau cynllunio eraill. Ni fydd y dewis hwn yn gymwys i gynigion ar gyfer datblygiad preswyl sy'n golygu estyn, trosi neu newid defnydd adeiladau sy'n bodoli. Wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol gymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau rhwng gweithrediadau sifil a milwrol. Gall awyrennau jet milwrol greu lefelau uchel iawn o swm yn enwedig wrth godi, ac yn achlysurol gall effeithiolrwydd gweithdrefnau hedfan, a fabwysiadir fel rheol i leihau swm, gael eu cyfyngu gan ofynion gweithrediadau. Gall newidiadau yn y math o awyrennau a'r nifer o symudiadau ddigwydd hefyd dros gyfnod byr, gan esgor ar newidiadau na ragwelwyd mohonynt yn y lefelau swm. Er hynny, mae hedfan milwrol wedi'i gyfyngu fel rheol i oriau gwaith yn ystod yr wythnos pan fo sensitifrwydd y cyhoedd i swm ar ei isaf.

B12. Ar gyfer meysydd glanio lle mae cynllun grantiau inswleiddio swm y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) wedi'i gyflwyno, bydd gan yr awdurdodau eisoes fap yr MoD yn dangos cyfuchliniau $L_{Aeq,T}$. Mae'r rhain wedi'u seilio ar gyfnod 12 awr, nid cyfnod 16 awr fel a ddefnyddir mewn meysydd glanio awyr sifil penodedig.

Hofrenyddion a hofrenfeydd

B13. Wrth benderfynu ar gais cynllunio am hofrenfa, ni ddylid asesu'r swm a ragwelir ar ei ben ei hun - dylid cymryd yr amgylchiadau lleoli i ystyriaeth gan gynnwys lefel yr aflonyddwch swm sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal o gwmpas y safle a ffactorau megis a yw'r ardal eisoes yn agored i sn gan awyrennau ag adenydd gosodedig. Bydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol

ystyried effeithiau aflonyddwch pellach yn deillio o'r cynnig.

B14. Mae i swm hofrennydd nodweddion gwahanol i awyren ag adenydd gosodedig ac mae'r cyhoedd o'r farn yn aml ei fod yn fwy o ymyrraeth neu'n fwy o niwsans. Dylid defnyddio'r categorïau datguddiad swm yn ofalus.

B15. Gellir sefydlu llwybrau hofrenyddion dros ddinasoedd ac yn ymyl meysydd glanio, er na fydd yn aml yn orfodol eu defnyddio. Gyda cheisiadau cynllunio am gyfleusterau glanio/ymadael ar gyfer hofrenyddion dylid darparu gwybodaeth ynghylch y llwybrau ymadael/glanio arfaethedig a'r llwybrau traffig awyr lle bo'n briodol. Os oes modd dylid bod wedi trafod y llwybrau hyn gan gytuno arnynt mewn egwyddor gyda'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS). Lle na cheir gwybodaeth o'r fath gyda'r cais, ond y credir ei bod yn angenrheidiol, dylai'r awdurdod cynllunio lleol ofyn amdani ac awgrymu bod y ceisydd yn trafod gyda'r NATS.

B16. Yn sgil cynnydd yn y defnydd o hofrenyddion fe'u gwelwyd yn symud o erddi tai preifat ac o eiddo masnachol, megis ffatrioedd, swyddfeydd a gwestai. Am resymau diogelwch, dim ond os ydynt wedi cael cymeradwyaeth arbennig gan yr Awdurdod Hedfan Sifil y gall hofrenyddion weithredu o safleoedd uchel. Gall yr holl symudiadau hyn achosi poendod yn lleol. Er hynny, gallant fod yn atodol neu'n ategol yn aml i brif ddefnydd y tir ac o'r herwydd nid oes angen caniatâd cynllunio ar wahân fel rheol. Gellir cymryd bod adeiladu lleiniau caled, gosod goleuadau glanio etc. yn ddatblygu y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

Swm datblygiadau diwydiannol a masnachol

B17. Gellir asesu'r tebygrwydd y ceir cwynion ynghylch swm o ddatblygiad diwydiannol, lle mae'r Safon yn briodol, drwy ddefnyddio'r canllawiau yn BS 4142: 1990. Mae nodweddion tonaid neu ergydol yn y swm yn debygol o gynyddu'r siawns y bydd yna gwynion a chaiff hyn ei gymryd i ystyriaeth gan y "lefel gyfraddiad" a ddiffinnir yn BS 4142. Dylid defnyddio'r "lefel gyfraddiad" hon wrth bennu lefel y swm y gellir ei chaniatáu. Nodir tebygrwydd cwynion gan y gwahaniaeth rhwng y swm o'r datblygiad newydd (wedi'i fynegi yn nhermau lefel gyfraddiad) a'r swm cefndir sy'n bodoli eisoes. Yn ôl y Safon, 'A difference of around 10 dB or higher indicates that complaints are likely. A difference of around 5 dB is of marginal significance'. Gan fod lefelau swm cefndir yn amrywio drwy gydol cyfnod o 24 awr, fe fydd fel arfer yn angenrheidiol asesu pa mor dderbyniol yw'r lefelau swm ar gyfer cyfnodau gwahanol (e.e. dydd a nos) a ddewisir i gyd-fynd ag oriau gweithredu'r datblygiad arfaethedig. Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i ddatblygiadau a fydd yn creu swm sylweddol ar y penwythnos yn ogystal ag yn ystod yr wythnos. Yn ychwanegol, gellir cael canllawiau cyffredinol ar lefelau swm derbyniol o fewn adeiladau yn BS 8233: 1987.

B18. Mae datblygiadau masnachol megis bwytai bwydydd cyflym, disgos, clybiau nos a thafarndai yn creu anawsterau penodol, nid lleiaf am mai gyda'r nos ac yn hwyr y nos y mae'r gweithgareddau perthnasol ar eu hanterth yn aml. Bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno cofio nid yn unig am y swm a gedwir o fewn yr eiddo ond hefyd y problemau a ddaw yn sgil y swm a all gael ei gadw gan gwsmeriaid yn y cyffiniau. Ni ddylid bychanu'r aflonyddwch y gall traffig a pharcio ceir ei greu.

Swm tyrbinau gwynt a ffermydd gwynt

B19. Mae canllawiau manwl ar swm tyrbinau gwynt wedi'u cynnwys yng Nghannllawiau Cynllunio (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8, 'Ynni Adnewyddadwy', Y Swyddfa Gymreig, 1996, Atodiad A, paragraffau A28-A38.

Swm safleoedd adeiladu

B20. Gellir cael canllawiau manwl ar asesu swm o safleoedd adeiladu yn BS 5228, rhannau 1-4. Yn benodol, mae Rhan 1:1984, "Code of practice for basic information and procedures for noise control" yn disgrifio dull ar gyfer rhag-weld swm o safleoedd adeiladu, yn ogystal â rhoi

cyngor cyffredinol.

Swm gweithgareddau hamdden a chwaraeon

B21. Ar gyfer y gweithgareddau hyn, bydd rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gymryd i ystyriaeth pa mor aml y caiff y swm ei greu a pha mor aflonyddgar y bydd, a chydbwysu mwynhad y rhai sy'n cymryd rhan yn erbyn niwsans i bobl eraill. Hwyrach na fydd adeiladau sy'n rhannol agored megis stadia yn cael eu defnyddio'n aml. Yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a'r farn gyhoeddus, gall yr awdurdodau cynllunio lleol gredu ei bod yn rhesymol caniatáu lefelau allyriadau swm uwch nag y byddent o ddatblygiadau diwydiannol, yn amodol ar gyfyngiad ar oriau defnydd a rheoli allyriadau swm (gan gynnwys uchelseinydidon) yn ystod oriau anghymdeithasol. Mae nifer o weithgareddau chwaraeon yn destun Codau Ymarfer. Mae hawliau datblygu a ganiateir ar gael i rai gweithgareddau sy'n creu swm, a roddwyd gan Ran 4 o Atodlen 2 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ac felly mae'n bosibl na fydd angen caniatâd cynllunio penodol ar eu cyfer ar yr amod mai dros dro y maent yn digwydd. Er hynny, gellir tynnu'r caniatâd hwn yn ôl drwy wneud cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn.

Swm o safleoedd tirlenwi ar gyfer gwaredu gwastraff

B22. Mae amodau a gysylltir â thrwyddedau gwaredu gwastraff fel rheol yn gosod terfynau ar swm y gwastraff, amllder y llwythi ac oriau gweithredu, ac yn pennu gofynion sgrinio. Bydd i'r rhain effeithiau anuniongyrchol ar faint o swm a greir, ond gall amodau ar drwydded y safle gyfeirio'n benodol hefyd at reoli swm er mwyn diogelu'r amgylchedd ac amwynder lleol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth ymdrin â safleoedd lle mae'r gweithredydd yn gweithio gyda mantais Tystysgrif Defnydd Sefydledig (fel y'i diffinnir yn adran 36(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) neu ganiatâd cynllunio nad yw'n ddarostyngedig i amod swm. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol a'r awdurdodau rheoli gwastraff ymgynghori'n gynnar wrth ystyried yr angen i osod rheolau penodol ynglyn â swm drwy amodau priodol mewn unrhyw ganiatâd cynllunio neu yn y drwydded safle ddilynol.

B23. Symud cerbydau, gwaith tipio a pheiriannau'r safle fydd prif ffynhonnell y swm. Gall amodau cynllunio neu amodau trwyddedu priodol gyfeirio felly at oriau gwaith; gyda nifer a/neu gynhwysedd y cerbydau sy'n defnyddio'r safle a'u mynedfeydd a'u hallanfeydd; a darpariaeth sgriniau acwstig a/neu derfynau swm. Ceir gwybodaeth ar rag-weld y swm yn BS 5228: Rhan 1: 1984.

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Swm

Hydref 1997

Atodiad C

ENGHRAIFFTIAU O AMODAU CYNLLUNIO

C1. Dylai'r awdurdodau ddilyn y canllawiau a roddwyd yng Nghylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig 'The Use of Conditions in Planning Permissions'. Dylid bod yn ddetholus wrth ddefnyddio amodau. Nid yw'r enghreifftiau isod yn gallu cynnwys pob sefyllfa. Gall fod ar yr adrannau cynllunio angen cyngor arbenigol, fel arfer oddi wrth adrannau iechyd amgylchedd, wrth ystyried gosod rhai o'r amodau hyn a monitro cydymffurfiaid â hwy.

C2. Mae'r sylwadau mewn cromfachau () yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ac nid ydynt yn rhan o'r amod cynllunio.

Amodau i gadw effaith swm i'r lleiaf posibl ar ddatblygiad newydd sy'n sensitif i swm

C3. Rhaid i'r gwaith adeiladu beidio â dechrau nes bod cynllun ar gyfer diogelu'r [datblygiad sy'n sensitif i swm] arfaethedig rhag swm o'r wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi'i gymeradwyo ganddo; rhaid i'r holl waith sy'n rhan o'r cynllun gael ei gwblhau cyn meddiannu [unrhyw ran] o'r [datblygiad sy'n sensitif i swm].

(Dylai'r awdurdodau gynnig canllawiau i geiswyr ynghylch y lefelau swm uchaf a ganiateir o fewn neu o gwmpas y datblygiad sy'n sensitif i swm er mwyn darparu canllawiau manwl-gywir ar gyfer y cynllun sydd i'w gyflwyno).

C4. Rhaid adeiladu amlen yr adeilad ar blot rhif(au) er mwyn sicrhau y bydd swm allanol yn cael ei wanhau nid llai na dB(A), gyda'r ffenestri ar gau a dulliau eraill o awyru wedi'u darparu.

(Mae'r amod hwn yn briodol, er enghraifft, lle bo angen diogelu anheddau unigol yn erbyn sn allanol. Bwriedir i'r term amlen adeilad gynnwys y ffenestri allanol, y drysau, y muriau a'r to, y gallai sn ddod i mewn i'r adeilad drwyddynt).

C4. Rhaid adeiladu amlen yr adeilad ar blot rhif(au) er mwyn sicrhau y bydd swm allanol yn cael ei wanhau nid llai na dB(A), gyda'r ffenestri ar gau a dulliau eraill o awyru wedi'u darparu.

(Mae'r amod hwn yn briodol, er enghraifft, lle bo angen diogelu anheddau unigol yn erbyn sn allanol. Bwriedir i'r term amlen adeilad gynnwys y ffenestri allanol, y drysau, y muriau a'r to, y gallai sn ddod i mewn i'r adeilad drwyddynt).

Amodau sy'n cyfyngu ar ddefnydd maes glanio neu ran o faes glanio

C5. Rhaid i gyfanswm y symudiadau beidio â bod yn fwy na [] ym mhob [cyfnod amser], ac eithrio mewn argyfwng.

C6. Rhaid i'r symudiadau ddigwydd rhwng [oriau'r dydd] ar [dyddiau'r wythnos] yn unig, ac eithrio mewn argyfwng.

C7. Rhaid i'r [datblygiad] a ganiateir beidio â chael ei ddefnyddio gan unrhyw awyren â phwysau awdurdodedig sy'n fwy na [], ac eithrio mewn argyfwng.

C8. Rhaid i gyfanswm symudiadau awyrennau y mae cyfanswm eu pwysau yn fwy na [] beidio â bod yn fwy na [] mewn unrhyw [gyfnod amser].

(Ei phwysau â llwyth llawn yw cyfanswm pwysau awyren).

C9. Rhaid i [dosbarth yr awyren] beidio â defnyddio'r rhedfeydd, ac eithrio mewn argyfwng.

(Gyda diffiniadau o'r dosbarth os bydd eu hangen).

C10. Rhaid i gyfanswm y symudiadau 'cyffwrdd â mynd' beidio â bod yn fwy na [] ym mhob [cyfnod amser].

C11. Rhaid i symudiadau 'cyffwrdd a mynd'(1) ddigwydd rhwng [oriau'r dydd] ar [dyddiau'r wythnos] yn unig.

C12. Rhaid peidio â defnyddio unedau pwer cynorthwyol rhwng [oriau'r dydd] ar [dyddiau'r wythnos].

(Mae uned pwer cynorthwyol yn cyfeirio at injan fach sy'n cael ei defnyddio i danio systemau sylfaenol yr awyren pan nad yw ei hinjans yn rhedeg).

(1) mae 'cyffwrdd â mynd' yn cyfeirio at laniad a ddilynir yn union gan esgyniad, fel mewn hediadau i brofi a hyfforddi.

Amod yn cyfyngu defnydd adeiladau diwydiannol neu fasnachol(1)

C13. Rhaid defnyddio'r adeilad er mwyn ac nid at unrhyw ddiben arall (gan gynnwys unrhyw ddiben arall yn Nosbarth o Atodlen Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 neu mewn unrhyw ddarpariaeth sy'n cyfateb â'r Dosbarth hwnnw mewn unrhyw offeryn statudol arall sy'n diddymu ac yn ail-ddeddfu'r Gorchymyn hwnnw).

Amodau yn cyfyngu swm yn deillio o adeiladau a safleoedd diwydiannol neu fasnachol(1)

C14. Cyn i'r defnydd ddechrau, rhaid inswleiddio'r [adeilad(au) penodedig] yn unol â chynllun y cytunir arno gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

(Dylai awdurdodau sy'n defnyddio'r amod hwn hysbysu'r ceisydd ynglyn â graddau'r inswleiddiad rhag swm y credir eu bod yn briodol er mwyn sicrhau lefel dderbyniol o sn allanol).

C15. Cyn i'r datblygiad a ganiateir drwy hyn ddechrau, rhaid cytuno ar gynllun gyda'r awdurdod cynllunio lleol sy'n pennu'r darpariaethau sydd i'w gwneud ar gyfer rheoli swm sy'n deillio o'r safle.

(Gallai'r darpariaethau hyn gynnwys mesurau ffisegol a/neu weinyddol).

C16. Rhaid i [weithgareddau penodedig] beidio â digwydd yn unrhyw le ar y safle ac eithrio o fewn [adeilad(au) penodedig].

(Dylai'r amod ddisgrifio'n union y gweithgareddau sydd i'w rheoli yn ogystal â'r

adeilad(au) penodol y caniateir iddynt ddigwydd ynddo/ynddynt).

C17. Rhaid [adeiladu'r/addasu'r] adeilad er mwyn darparu inswleiddiad rhag swm o nid llai na dB(A) sy'n cael ei greu'n fewnol, gyda'r ffenestri ar gau a dulliau eraill o awyru wedi'u darparu.

(Rhoddir dulliau eraill o bennu inswleiddiad rhag swm yn BS 5821: Rhan 3: 1984).

C18. Rhaid i lefel y swm sy'n cael ei allyrru o'r safle beidio â bod yn fwy na [A] dB rhwng [T] a [T] ddydd Llun i ddydd Gwener ac [A] dB ar unrhyw adeg arall, fel y'i mesurir ar [ffin benodedig/ffiniau penodedig] y safle yn [lleoliad(au) y pwynt(iau) monitro].

Rhowch fanylion:

A - lefel y sn wedi'i mynegi fel LAeq,T dros gyfnod amser X (e.e. 1 awr)

T - yr amser o'r dydd

C19. Rhaid i lefel gyfraddiad y swm sy'n cael ei allyrru o'r safle [beidio â bod yn uwch na] [fod yn is na] [B] dB lefel bresennol y sn cefndir [sef [A] dB] o [fwy na] [o leiaf] [B] dB rhwng [T] a [T] ddydd Llun i ddydd Gwener a [B] dB ar unrhyw adeg arall. Pennir y lefelau swm yn [yr adeiladau agosaf sy'n sensitif i swm] [y lleoliad(au) penodedig]. Rhaid gwneud y mesuriadau a'r asesiad yn unol â BS 4142: 1990.

Rhowch fanylion:

A - lefel y sn cefndir wedi'i mynegi fel LA90, T dros gyfnod amser T

B - y gwahaniaeth yn lefel y sn rhwng y lefel gyfraddiad a'r lefel gefndir

T - yr amser o'r dydd

(1) Yn achos safleoedd diwydiannol a masnachol, hwyrach y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried gosod dau fath o amod cynllunio, fel a nodir isod. Mae'r math cyntaf (amodau C18 ac C19) yn pennu terfyn swm dros gyfnod penodol ar bwynt penodedig - megis y tu allan i'r adeilad agosaf sy'n sensitif i swm neu ar ffin y safle. Mae'r ail fath (amodau C13-C17 ac C20-22) yn pennu'r math o weithgarwch a all ddigwydd, unrhyw gyfyngiadau angenrheidiol ar oriau gweithredu, a manylion adeiladwaith y datblygiad a'i gynllun.

Mae'r math cyntaf o amod yn caniatáu i'r datblygydd gyrraedd y lefel swm angenrheidiol ym mha bynnag ffordd y mae'n credu ei bod yn fwyaf cost-effeithiol, felly gall fod yn addas ar gyfer hap-ddatblygiadau. Mantais bellach yw ei fod yn rheoli swm yn y tymor hir gan fod rhaid gwneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol o fewn y datblygiad mewn ffordd nad yw'n mynd dros y terfynau. Er hynny, anfantais gyda'r math hwn o amod yw bod rhaid monitro allyriadau swm er mwyn sicrhau cydymffurfriad. Er y gall y gwaith monitro fod yn gostus ac yn hirfaith, ni ddylid edrych ar hyn fel rheswm digonol dros beidio â defnyddio amodau swm lle bônt yn briodol.

Mae'n haws cadw llygad ar gydymffurfriad â'r ail fath o amod a gallant fod yn fwy effeithiol yn erbyn problemau swm penodol. Er enghraifft, gall amodau ynghylch lleoliad y fynedfa i'r datblygiad helpu i ddatrys problemau swm mewn ardaloedd preswyl cyfagos sy'n deillio o draffig (yn enwedig cerbydau trwm) sy'n cael ei greu gan y datblygiad. Ond gall rheoli'r gweithgarwch, y gwaith adeiladu a'r cynllun fod yn llai effeithiol na therfynau swm o ran rheoli'r swm sy'n deillio o unrhyw newidiadau yn y datblygiad yn y dyfodol. Yn ymarferol, felly, gall cyfuniad o'r ddau fath o amod fod o fantais. Gallai hyn olygu rhoi targedau terfynau swm yn gynnar i'r datblygydd eu defnyddio wrth lunio cynllun adeiladu a gweithredu ar gyfer y datblygiad. Os yw'r awdurdod

cynllunio lleol yn fodlon y byddai'r cynigion yn bodloni'r terfynau sn hyn, gellid ymgorffori'r cynllun mewn amod cynllunio.

C20. Rhaid peidio â gweithredu unrhyw [beiriannau penodedig] yn yr adeiladau cyn [amser yn y bore] ar ddyddiau'r wythnos a chyn [amser yn y bore] ar ddydd Sadwrn neu ar ôl [amser yn yr hwyr] ar ddyddiau'r wythnos ac [amser yn yr hwyr] ar ddydd Sadwrn, nac ar unrhyw adeg ar ddydd Sul, Gwyliau Banc neu Wyliau Cyhoeddus.

C21. Cyn defnyddio [unrhyw] [offer a/neu beiriannau penodedig] yn yr adeiladau, rhaid eu [hamgáu â deunydd inswleiddio sn] [a'u] [gosod mewn ffordd a fydd yn cadw'r swm sy'n cael ei drosglwyddo drwy strwythurau] yn unol â chynllun y cytunir arno gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

(Dylid ychwanegu at y caniatâd gyngor yn dangos yr inswleiddiad rhag swm y mae ei angen, neu'r lefel swm uchaf a ganiateir wrth bwynt monitro penodedig).

C22. Er gwaethaf darpariaethau Erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, rhaid peidio â chodi unrhyw offer neu beiriannau ar y safle o dan Ran 8 o Atodlen 2 y Gorchymyn hwnnw neu'n unol â'r Rhan honno heb ganiatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol.

PENNU TERFYNAU SWN

D1. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn dymuno gosod amod cynllunio a fydd yn pennu terfyn swm derbyniol o ffynhonnell newydd, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

Y math o derfyn

D2. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall fod yn briodol gosod naill ai:

- a. terfyn absoliwt ar sail lefel gyfartalog y swm na ddylid mynd y tu hwnt iddi yn ystod cyfnod amser penodol;
- b. terfyn cymharol ar y cynnydd a ganiateir yn lefel y swm mewn perthynas â'r swm cefndir. Dyma'r ymagwedd a ddefnyddir yn BS 4142: 1990.

D3. Yn gyffredinol, nid yw terfynau cymharol yn briodol lle mae'r cynnydd a ganiateir mewn swm dros y cefndir yn sylweddol - e.e. 15 dB neu fwy. Am fod swm cefndir yn amrywio yn ystod y dydd, dylai'r lefel swm cefndir a bennir fod yn gynrychioliadol o gyfnod tawel nodweddiadol yn ystod y diwrnod gwaith.

D4. Gall y naill fath o derfyn neu'r llall fod yn un gwerth dros y cyfnod perthnasol, neu'n werthoedd gwahanol ar gyfer, dyweder, dydd a nos. Gall fod yn briodol gosod gwerth gyda'r nos hefyd lle mae ffynhonnell y swm yn addas ar gyfer rheolaeth fanwl.

D5. Bydd yn anodd monitro terfyn swm sy'n agos at y lefel gefndir a dylid dilyn y cyngor a roddir yn BS 4142. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar safleoedd tawel lle gall yr $L_{Aeq,T}$ fod 10 dB neu fwy uwchlaw'r $L_{A90,T}$ - hyd yn oed pan na fydd ffynhonnell y swm yn gweithredu.

D6. Mae'r syniad o osod lefel uchaf holl-bwysig ychwanegol yn aml yn ddeniadol, ond gall fod yn anodd ei gorfodi oherwydd gyda gorsafedd monitro di-staff mae'n anodd cau allan synau allanol (a fydd yn cynyddu'r lefel a fesurir). Gellir cael anhawster gweinyddol hefyd o ymdrin â lefelau swm uchel achlysurol o'r safle.

D7. Os o fewn adeiladau yn unig y creir y swm ac os yw lefelau uchaf y sbectrwm amledd yn hysbys, gall fod yn briodol pennu safon ar gyfer inswleiddio swm yn amlen yr adeilad yn hytrach na gosod terfyn swm wrth bwynt monitro allanol.

Mynegai swm

D8. Am fod synau yn amrywio dros amser a chanddynt nodweddion gwahanol, datblygwyd llawer o fynegeion i ddisgrifio lefelau swm. Mae'r lefel swm barhaol gyfatebol dros gyfnod amser, T ($L_{Aeq,T}$) wedi dod i'r amlwg fel y mynegai aml-bwrpas gorau ar gyfer swm amgylcheddol. Ar gyfer swm traffig ffyrdd defnyddir $L_{A10, 18h}$ yn eang o hyd; ac mae $L_{A90, T}$ yn briodol i ddisgrifio swm cefndir. Er mwyn disgrifio inswleiddiad swm cydran o amlen adeilad (e.e. ffenestr) mae R_w (BS 5821: Rhan 3: 1984) yn briodol. Mae'n anos pennu inswleiddiad holl amlen yr adeilad am y bydd y gwerth yn dibynnu ar werthoedd inswleiddio gwahanol ar gyfer gwahanol elfennau o'r adeilad megis ffenestri, muriau a strwythur y to, yn ogystal â'r math o ffynhonnell swm a'i lleoliad.

D9. Esbonnir y mynegeion hyn yn yr Eirfa. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol yn BS 7445: 1991.

Pwynt(iau) monitro

D10. Fel rheol caiff y terfyn swm ei ddewis i ddiogelu'r eiddo agosaf sy'n sensitif i swm ac yn aml y lleoliad gorau ar gyfer y pwynt(iau) monitro fydd y tu allan i'r eiddo sensitif. Er hynny, nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'r pwynt monitro fod yn agos bob amser i'r eiddo. Fel rheol mae terfynau swm yn cyfeirio at swm o'r ffynhonnell o dan ystyriaeth yn unig ac nid cyfanswm y gwerth mesuredig a all gynnwys, er enghraifft, swm traffig. Mewn sefyllfaoedd lle mae swm allanol yn ei gwneud yn anodd monitro, gall fod yn haws monitro lefel sydd wedi'i haddasu'n briodol ar ffin y safle yn lle y tu allan i'r eiddo sydd i'w ddiogelu. Mae'r ymagwedd hon yn gofyn bod lefel y swm wrth y pwynt monitro ar ffin y safle yn ddangosydd dibynadwy o'r lefel yn yr adeilad sydd i'w diogelu; hwyrach na fydd hyn yn wir os yw ffynhonnell y swm yn symudol. Dylai'r pwyntiau monitro fod yn hygyrch i bob parti perthnasol.

Amodau meteorolegol

D11. Caiff y lefel swm a fesurir ar bwynt monitro ei heffeithio gan gyflymdra a chyfeiriad y gwynt, a graddiannau tymheredd, yn enwedig pan fo'r pwynt monitro'n bell (>30m) o'r ffynhonnell. Mae'n anodd rhag-weld maint yr effeithiau hyn, ac felly dylid gwneud mesuriadau (neu ragolygon) mewn tywydd gweddol sefydlog. Tywydd addas yw gwynt ysgafn gyda chydran fector hyd at 2m/e o'r ffynhonnell i'r derbynnydd; bydd hyn yn cynyddu'r lefel swm o ryw 2dB(A) o'i gymharu â'r sefyllfa lle na cheir dim gwynt.

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Swm

Hydref 1997

Atodiad E

GWYBODAETH AM GYFUNDREFNAU RHEOLI SWN ERAILL

Deddf Swm 1996

E1. Mae Deddf Swm 1996, a weithredir yn llawn yn ystod 1997, yn cyflwyno pwerau newydd i'r awdurdodau lleol ymdrin â chwynion am swm yn ystod y nos o adeiladau domestig. Mae'r Ddeddf yn creu trosedd newydd o swm yn ystod y nos, i'w hasesu yn erbyn safon wrthrychol, a gweithdrefn newydd i ymdrin â chipio a ffordedu offer creu swm.

Deddf Swm a Niwsans Statudol 1993

E2. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol ymdrin â swm a gaiff ei greu gan gerbydau, peiriannau neu offer yn y stryd lle bônt yn fodlon bod y swm yn niwsans statudol, ac yn caniatáu iddynt fabwysiadu darpariaethau ynglyn â gweithrediad uchelseinyddion mewn strydoedd a rheoli swm o larymau tresbaswyr clywadwy ar adeiladau a thiroedd. Mae hefyd yn adsefydlu pŵer a oedd gan yr awdurdodau lleol o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 i adennill costau a dynnir wrth atal niwsans statudol drwy osod arwystl ar eiddo y mae neu yr oedd ei berchennog yn gyfrifol am y niwsans.

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

E3. Mae Rhan III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Deddf 1990) yn rhoi pwerau sylweddol ac eang i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ymdrin â phroblemau swm. Lle bo'r awdurdod lleol yn fodlon bod y swm sy'n dod o unrhyw eiddo yn niweidiol i iechyd, neu'n niwsans, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad atal swm mewn perthynas â'r niwsans neu wahardd neu gyfyngu ei ddiwyddiad neu ailddigwyddiad, a gall hefyd fynnu bod y cyfryw waith yn cael ei wneud a'r cyfryw gamau yn cael eu cymryd ag sy'n angenrheidiol at y diben hwn.

E4. Mae Adran 82 o Ddeddf 1990 hefyd yn rhoi pŵer i unigolyn gwyno'n uniongyrchol i lys ynadon am broblem swm.

Deddf Rheoli Llygredd 1974

E5. Diddymwyd Rhan III o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 (Deddf 1974) i raddau helaeth yng Nghymru a Lloegr gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Er hynny, mae'r adrannau hynny sy'n bodoli o hyd yn rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol reoli swm o safleoedd adeiladu, a swm o uchelseinyddion yn y stryd. Cyflwynodd y Ddeddf hefyd y cysyniad o Barthau Atal Swm (PAS) sy'n cynnig ffordd fwy soffistigedig o reoli, a lle y gellir ei gyfiawnhau, o ostwng swm o eiddo masnachol a diwydiannol, yn enwedig mewn ardaloedd o ddatblygu cymysg. Er bod PAS wedi'u beirniadu am eu cymhlethdod, ac er mai ychydig sydd wedi'u dynodi yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r pwerau sydd ar gael mewn parthau o'r fath (er enghraifft hysbysiadau gostwng swm) yn parhau'n ddull defnyddiol posibl o ymdrin â rhai mathau o broblemau o swm trefol.

Codau Ymarfer

E6. O dan Ddeddf 1974 mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwr hefyd i baratoi a chymeradwyo Codau Ymarfer yn rhoi canllawiau ar y ffordd orau i leihau neu ostwng swm. Mae pedwar Cod Ymarfer wedi'u cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol:

Code of Practice on Noise from Audible Intruder Alarms Gwasg Ei Mawrhydi 1982

Code of Practice on Noise from Ice Cream Van Chimes etc. Gwasg Ei Mawrhydi 1982

Code of Practice on Noise from Model Aircraft Gwasg Ei Mawrhydi 1982

Code of Practice on Noise Control on Construction and Open Sites Gwasg Ei Mawrhydi 1984 Gwasg Ei Mawrhydi 1986 (BS 5228: Rhannau 1 a 3 Rhan 4)

Mae yna nifer o godau eraill sy'n cynnig cyngor ar sut i leihau effeithiau gweithgareddau swm gan gynnwys defnyddio dychrynwyr adar clywadwy a swm cyngherddau pop a motobeicio oddi ar y ffordd. Yn ychwanegol mae llawer o gyrff llywodraethu chwaraeon wedi cynhyrchu codau ymddygiad a ddefnyddir wrth drefnu digwyddiadau, a dylid ymgynghori â'r rhain pan gaiff safleoedd newydd eu dewis. Nid oes grym y gyfraith i'r codau hyn, ond gallant fod o gymorth i'r awdurdodau lleol a llysoedd ynadon wrth ymarfer eu pwerau a'u swyddogaethau o dan Ddeddfau 1974 a 1990.

Is-ddeddfau

E7. Gellir rheoli rhai ffynonellau swm drwy is-ddeddfau a wneir gan awdurdodau lleol, yn enwedig rhai mathau penodol o swm sy'n digwydd ar strydoedd neu mewn parciau a safleoedd hamdden. Mae yna is-ddeddfau hefyd mewn rhai ardaloedd sy'n cynnwys mathau eraill o niwsans swm sydd bellach yn ddarostyngedig i reolaeth o dan Ddeddfau 1974 a 1990: gall is-ddeddfau o'r fath barhau'n ddilys, ond nid oes is-ddeddfau newydd o'r math hyn yn debygol o gael eu cadarnhau oni ellir dangos nad ydynt yn dyblygu deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli.

Cyfeirebau'r Gymuned Ewropeaidd

E8. Mae'r Gymuned Ewropeaidd wedi cyhoeddi cyfeirebau sy'n canolbwyntio ar gyfyngu swm o gynhyrchion, yn enwedig mathau o drafnidiaeth, offer adeiladu a chynhyrchion penodol eraill megis torwyr gwair ac offer ty. Mae'r prif gyfeirebau fel a ganlyn:-

70/157 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeireb y Cyngor ynglyn â'r lefel swm a ganiateir o gerbydau modur a'u systemau gwacáu.

78/1015 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeireb ar y lefel swm a ganiateir o feiciau modur a'u systemau gwacáu.

74/151 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeireb ynglyn â rhai rhannau a nodweddion ar dractorau amaethyddol neu goedwigol ar olwynion.

79/113 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeireb ynglyn â phenderfynu ar allyriadau swm cyfarpar ac offer adeiladu.

84/532

Cyfeireb ar ymdebygu deddfau'r Aelod-Wladwriaethau ynglyn â darpariaethau cyffredin ar gyfer cyfarpar ac offer adeiladu

86/662

Cyfeireb ar gyfyngu swm o beiriannau turio hydrologig, peiriannau turio'n cael eu gweithio â rhaffau, teirw dur, llwythwyr a llwythwyr turio

80/51 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeireb ar gyfyngu swm o awyrennau is-sonig.

84/538 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeireb ar ymdebygu deddfau'r Aelod-Wladwriaethau ynglyn â lefel pŵer swm a ganiateir ar gyfer torwyr gwair.

86/188

Cyfeireb ar ddiogelu gweithwyr rhag peryglon ynglyn â bod yn agored i swm yn y gwaith.

86/594

Cyfeireb ar swm yn yr awyr a gaiff ei ollwng gan offer ty.

Rheoliadau Adeiladu

E9. Mae Rheoliadau Adeiladu 1991 yn gosod gofynion ar gyfer inswleiddio swm rhwng anheddau. Mae Dogfen Gymeradwy E Rheoliadau Adeiladu 1991 (Gwrthsafedd yn erbyn swm) (ISBN 0 11 752315 1) yn cynnig canllawiau ymarferol ar sut y gellir cyflawni'r safonau angenrheidiol o inswleiddio swm.

E10. Daeth Rheoliadau Adeiladu 1991 i rym ar 1 Mehefin 1992, ac fe gawsant eu hestyn i gynnwys inswleiddio swm rhwng fflatiau sydd wedi'u trosi, drwy gynnwys darpariaethau sydd mor agos ag sy'n ymarferol i'r rhai ar gyfer adeiladau newydd. Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r Rheoliadau Adeiladu yw'r dull mwyaf priodol o reoli ar gyfer inswleiddio swm mewn trosiadau o'r fath, ac y dylid defnyddio'r hain yn hytrach nag amodau cynllunio. Nid yw hyn yn rhwystro defnyddio amodau lle mae angen cymeradwyaeth cynllunio ar gyfer newid defnydd i weithgarwch swm (e.e. trosi yn gaffi, discotheque neu weithgarwch swmllyd arall) lle mae waliau rhannu neu lawr yn gwahanu annedd oddi wrth ddiben o'r fath.

Cerbydau modur

E11. Mae Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnydd) 1986 (fel y'u diwygiwyd) yn cynnwys safonau diogelwch a safonau amgylcheddol ar gyfer adeiladu a defnyddio pob dosbarth o gerbydau. Yn nhermau swm, mae'r Rheoliadau'n cynnwys terfynau swm gyrru-heibio a gweithdrefnau profi ar gyfer cerbydau newydd, gofynion ar gyfer dylunio a defnyddio cynn cerbydau, larymau gyrru'n ôl a larymau lladrata a'r gofynion ynghylch adeiladu a marcio systemau gwacáu gwreiddiol ac amnewidiol ar gyfer beiciau modur. Gwaherddir defnyddio cerbyd mewn modd sy'n achosi swm gormodol y gellid ei osgoi hefyd a rhaid i unrhyw system wacáu gael ei chadw mewn cyflwr da ac effeithlon ac ni ddylid ei haddasu i achosi swm ychwanegol.

Swm yn y gwaith

E12. Mae Rheoliadau Swm yn y Gwaith 1989, a orfodir gan arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gymryd nifer o gamau i ddiogelu gweithwyr rhag bod yn agored i swm gormodol.

Awyrennau

E13. Nodir y modd y gellir hedfan awyren yn Adran 76 o Ddeddf Hedfan Sifil 1982 ac yn Rheoliadau Rheolau'r Awyr 1996. O dan Adran 76 o'r Ddeddf Hedfan Sifil mae awyrennau wedi'u hesemptio o achosion mewn perthynas â thresbasu neu niwsans, gan gynnwys niwsans swm, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â darpariaethau unrhyw Orchymyn Llywio Awyr. Mae Rheol 5 o Reoliadau Rheolau'r Awyr yn datgan, gyda rhai eithriadau, na ddylai awyren hedfan islaw 1500 troedfedd dros fannau poblog neu 500 troedfedd yn unman arall, ac eithrio pan fo'n codi neu'n glanio.

Defnyddio tir dros dro

E14. O dan Ran 4 o Atodlen 2 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, mae yna hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer rhai gweithgareddau dros dro. Mae'r rhain yn caniatáu defnyddio tir am hyd at 28 diwrnod (14 diwrnod yn achos marchnadoedd/gwerthiannau cistiau car a chwaraeon cerbydau) mewn unrhyw un flwyddyn galendr heb yr angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio. Gall awdurdod lleol wneud cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn sy'n dileu'r caniatâd cyffredinol ac felly'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n dymuno gweithredu'r defnydd penodol wneud cais cynllunio penodol. Os bwriedir i gyfarwyddyd erthygl 4 barhau mewn grym am fwy na chwe mis, yna mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall iawndal fod yn daladwy os caiff caniatâd ar gais cynllunio dilynol ei wrthod, neu os caiff ei roi yn ddarostyngedig i amodau, heblaw'r amodau a osodir gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Swm Hydref 1997

Atodiad F

OFFERYNNAU STATUDOL

Rheoliadau Inswleiddio rhag Swm	(OS 1975: 1763)
Rheoliadau Addysg (Adeiladau a Thiroedd Ysgolion) 1981 (i'w hadolygu)	(OS 1981: 909)
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd)	(OS 1987: 764)
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1988 (fel y'i diwygiwyd)	(OS 1988: 1199)
Rheoliadau Inswleiddio rhag Swm (Diwygio) 1988	(OS 1988: 2000)
Rheoliadau Sn yn y Gwaith	(OS 1989: 1790)
Rheoliadau Adeiladu	(OS 1991: 2768)
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995	(OS 1995: 418)

SAFONAU PRYDEINIG

BS 5228: 1984 (rhannau 1-3), 1992 (rhan 4), Rheoli swm ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored.

BS 5821: 1984, Graddio inswleiddiad swm adeiladau ac elfennau adeiladau.

BS 8233: 1987, Inswleiddio swm a lleihau swm ar gyfer adeiladau.

BS 4142: 1990, Dull ar gyfer graddio swm diwydiannol sy'n effeithio ar ardaloedd preswyl a diwydiannol cymysg.

BS 7445: 1991, Disgrifio a mesur swm amgylcheddol.

BS 6472: 1992, Arweiniad i werthuso datguddiad dynol i ddirgryniad mewn adeiladau (1 Hz i 80 Hz).